



Government
Counter Fraud
Function


GOV.UK/coronavirus



Counter Fraud Authority

COVID-19: TWYLL Y BRECHLYN

Mae troseddwr yn defnyddio brechlyn COVID-19 fel ffordd o dargedu aelodau'r cyhoedd drwy eu twyllo i drosglwyddo arian parod neu fanylion ariannol. Maent yn anfon negeseuon testun sy'n edrych yn ddilys yn dweud wrth bobl eu bod yn gymwys i gael y brechlyn, neu'n ffonio pobl yn uniongyrchol gan esgus eu bod o'r GIG, neu fferyllfa leol.



BYDDWCH YN EFFRO I'R SGAMIAU HYN

Fydd y GIG:

- ❌ **BYTH** yn gofyn am daliad – mae'r brechlyn yn rhad ac am ddim
- ❌ **BYTH** yn gofyn am eich manylion banc
- ❌ **BYTH** yn dod i'ch cartref yn ddirybudd i roi'r brechlyn
- ❌ **BYTH** yn gofyn i chi brofi pwy ydych chi drwy anfon copïau o ddogfennau personol fel eich pasbort

Y PEDWAR PRIF FATH O SGAM



NEGESEUON TESTUN

Gofynnir i bobl bwyso rhif ar eu bysellbad neu anfon neges destun i gadarnhau eu bod yn dymuno derbyn y brechlyn, mae gwneud hynny'n debygol o arwain at godi tâl ar eu bil ffôn a gall twyllwyr gasglu gwybodaeth bersonol i'w defnyddio eto.



GALWADAU FFÔN

Mae pobl yn derbyn galwad ffôn gan alwr ffug sy'n cynnig y brechlyn am ffi neu'n gofyn am fanylion banc.



GWEFANNAU

Dolenni URL ffug i ffurflenni archebu brechlynnau'r GIG sy'n edrych yn ddilys. Mae'r rhain yn edrych fel ffurflenni swyddogol y GIG a gallant gynnwys rhywfaint o wybodaeth bersonol eisoes, ar ddiwedd y ffurflen mae'n gofyn am eu manylion banc.



YN BERSONOL

Mae twyllwyr yn galw'n ddirybudd yng nghartrefi pobl gan esgus eu bod o'r GIG i roi'r brechlyn yn y fan a'r lle, yn gyfnewid am daliad arian parod.



Government
Counter Fraud
Function

GOV.UK/coronavirus



Counter Fraud Authority

FEL SGAMIAU ERAILL, MAE'R UN CYNGOR YN BERTHNASOL:

1

Heriwch – A allai fod yn ffug? Mae'n iawn gwrthod neu anwybyddu unrhyw geisiadau nad ydynt yn teimlo'n iawn. Ewch i GOV.UK i sicrhau ei fod yn ddilys.

2

Peidiwch ag ymateb i negeseuon testun sy'n gofyn i chi anfon arian, neu wybodaeth bersonol bwysig fel manylion banc neu gyfrineiriau.


3

Defnyddiwch wefannau **swyddogol** y llywodraeth ac ewch i adrannau 'Cysylltu â Ni' y gwefannau i gael gafeael ar wybodaeth a gwasanaeth.

4

Heriwch alwyr dirybudd i'ch cartref; bydd ymweliadau'r GIG, os bydd eu hangen, yn cael eu cytuno gyda chi'n uniongyrchol neu drwy ofalwyr, fyddan nhw byth yn galw'n ddirybudd.

ENGHREIFFTIAU O SGAMIAU



CANLLAWIAU A CHYMORTH PELLACH

Sefydliadau'r Sector Cyhoeddus:

Mae Swyddfa'r Cabinet wedi ffurfio Tîm Ymateb i Dwyll COVID-19 i gynorthwyo'r llywodraeth gyda'i hymateb gwrth-dwyll. Dylid e-bostio ceisiadau am gymorth at: covid19-counter-fraud@cabinetoffice.gov.uk

Cyhoeddus:



National Cyber
Security Centre

Os ydych chi'n derbyn galwad sy'n dwyllodrus yn eich tyb chi, dewch â'r alwad i ben. Os ydych yn amheus ynghylch e-bost rydych chi wedi'i dderbyn, anfonwch ef ymlaen at report@phishing.gov.uk. Dylid anfon negeseuon testun amheus i'r rhif **7726** sy'n rhad ac am ddim.

ActionFraud

National Fraud & Cyber Crime Reporting Centre

[actionfraud.police.uk](https://www.actionfraud.police.uk)

Os ydych chi'n credu eich bod wedi dioddef twyll neu achos o ddwyn hunaniaeth, dylech roi gwybod am hyn yn uniongyrchol i Action Fraud naill ai ar-lein; [actionfraud.police.uk](https://www.actionfraud.police.uk) neu dros y ffôn **0300 123 2040**.

CrimeStoppers.

Os oes gennych unrhyw wybodaeth yn ymwneud â thwyll mewn perthynas â'r brechlyn gallwch aros yn gwbl ddiennw drwy gysylltu â Llinell Gymorth Twyll COVID Crimestoppers ar-lein; [covidfraudhotline.org](https://www.covidfraudhotline.org) neu ffoniwch **0800 587 5030**.